

Cais am dystiolaeth

Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad:

.....

Eich enw:.....

Os ydych yn ateb ar ran sefydliad, nodwch enw y sefydliad:

.....

Eich swydd yn y sefydliad:

.....

Y Sector y mae'ch sefydliad yn gweithio ynddo:

.....

Nifer y gweithwyr yn eich sefydliad:

.....

Eich cyfeiriad e-bost:.....

Cyflwyniad

Yn ei araith yng Nghynhadledd Plaid Lafur Cymru ym mis Mawrth 2017, dywedodd y Prif Weinidog ei fod am wneud Cymru yn 'genedl gwaith teg'. Byddai'r genedl honno'n un lle gall pawb gael swyddi gwell yn nes adref, gan feithrin eu sgiliau a datblygu gyrfaedd; yn genedl lle gallwn ni i gyd gael gwaith boddhaol sy'n gwella'n bywydau, heb i neb gamfanteisio arnom a heb ddioddef tlodi; yn genedl lle gallwn ni i gyd greu ffyniant a rhannu'r ffyniant hwnnw.

Mae'r syniad hwn o Genedl Gwaith Teg yn cwmpasu polisi cymdeithasol a pholisi lles, strategaeth economaidd a diwydiannol, trafnidiaeth, tai ac addysg, etc. Ond un o'i elfennau craidd yw arferion teg ym maes cyflogaeth. Dyna'r elfen y mae'r Comisiwn Gwaith Teg yn hoelio sylw arni.

Ar ei lefel fwyaf sylfaenol, nod hyrwyddo ac annog gwaith teg yw ceisio cael gwared ar arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg, gan sicrhau bod cyflogwyr yn cadw at y safonau gofynnol. Nid dim ond gweithwyr sydd ar eu hennill. Mae cyflogwyr hefyd ar eu hennill o gystadlu dan yr un telerau, yn hytrach na'u bod yn dioddef oherwydd bod costau rhai yn is am fod eu harferion yn annheg ac am eu bod yn camfanteisio ar eu gweithwyr.

Heblaw hynny, mae gweithwyr, teuluoedd a chymunedau ar eu hennill drwy sicrhau incwm sy'n rhoi safon byw foddhaol iddynt; drwy fod â gwaith o ansawdd da sy'n rhoi sicrwydd iddynt yn ôl yr angen, ond sydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd iddynt ac yn ystyried anghenion unigolion.

Mae unigolion a chymunedau ar eu hennill os nad ydynt o dan anfantais o ran cael gwaith a symud ymlaen yn eu gyrfa oherwydd eu rhyw, hil, anabledd, rhywioldeb neu unrhyw nodweddion eraill sy'n amherthnasol i fyd gwaith. Drwy sicrhau tegwch, mae cyflogwyr ar eu hennill o ran denu, symbylu a chadw staff ac o ran manteisio ar botensial pawb, a'i wireddu. Mae cyflogwyr gwaith teg ar eu hennill hefyd oherwydd bod ganddynt enw da.

O roi llais effeithiol i weithwyr, o drefnu bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli a'u bod yn rhan o benderfyniadau, gall gweithwyr gyfrannu'n well at lwyddiant y fenter. Mae'n helpu hefyd i sicrhau tegwch o ran prosesau yn ogystal ag o ran canlyniadau, ac mae'n helpu i reoli gwrthdaro.

Yn ôl tystiolaeth ymchwil, mae cysylltiadau cadarnhaol rhwng trin gweithwyr yn deg, llesiant y gweithwyr hynny, a pha mor awyddus ydynt i wella cynhyrchiant a pherfformiad y sefydliad. Gall gwaith teg wneud cwmnïau'n fwy cynhyrchiol a helpu'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i wella sut y maent yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau ac i ddiogelu safon y gwasanaethau hynny.

Mae gan gyflogwyr ran ganolog i'w chwarae o ran creu swyddi da a sicrhau gwaith teg. Felly, rhan o'r hyn y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn gwireddu'r dyhead i greu Cenedl Gwaith Teg yw hyrwyddo a hybu cyflogwyr gwaith teg.

Nid yw hynny'n golygu ein bod wedi anghofio'r heriau gwirioneddol a allai fod o'n blaenau wrth inni geisio sicrhau arferion gwaith teg, ac nid ydym wedi anghofio ychwaith fod angen inni gyflwyno sawl ffordd o helpu cyflogwyr i gyrraedd y nod. Mae'n bosibl y bydd rhai cyflogwyr yn wynebu costau ychwanegol yn y tymor byr, ac efallai hefyd y bydd yn haws mesur y costau y bydd angen iddynt eu hwynebu ar unwaith na mesur y manteision a ddaw i'w rhan yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth cyflogwyr yn effeithio ar eu gallu i greu gwaith teg, er y gallai fod modd i'r llywodraeth ddylanwadu ar y ffactorau hynny.

Fel y mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, gall gwaith teg helpu ar lefel genedlaethol i sicrhau economi sy'n gryfach, yn fwy modern ac yn gynhwysol. Gall gwaith teg helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo llesiant a chydlyniant cymunedol. Mae'n cyfrannu at dwf a ffyniant cenedlaethol.

Mae Cenedl Gwaith Teg yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo; yn lle gwych i fuddsoddi ynddo.

Nod y Cais am Dystiolaeth

Nod y Cais hwn am Dystiolaeth yw elwa ar yr amrywiaeth eang o brofiadau, safbwyntiau ac ymchwil sy'n berthnasol i'n cylch gwaith. Rydym am nodi dangosyddion a ffyrdd o fesur a yw gwaith yn deg ai peidio ac am argymhell sut y gallai Llywodraeth Cymru ei annog a'i hyrwyddo.

Nid ymgynghoriad ar gynigion sydd wedi cael eu datblygu mohono, ond yn hytrach gais cynnar am wybodaeth i helpu'r Comisiwn i lunio'i gynigion a'r argymhellion i'w rhoi gerbron Gweinidogion.

Peidiwch â theimlo bod rheidrwydd arnoch i ateb pob un o'r cwestiynau.

Wrth ateb y cwestiynau, dylech gynnwys unrhyw ddata perthnasol, unrhyw dystiolaeth ymchwil, canlyniadau arolygon, enghreifftiau neu brofiadau ymarferol sy'n ategu'ch barn (neu gallech gynnwys dolenni neu gyfeiriadau atynt).

Dylech anfon eich ymateb i'n cais am dystiolaeth i flwch post y Comisiwn Gwaith Teg:

FairWorkCommission@llyw.cymru

Pe bai'n well gennych anfon eich ateb ar bapur, dylech ei anfon i:

Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Gwaith Teg

Y Llawr Cyntaf

Tŷ Afan

Ffordd Bedwas

Bedwas

Caerffili

CF83 8WT

Preifatrwydd a Diogelu Data

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol i brosesu data personol sy'n berthnasol i'r modd y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymatebion a anfonir gennych yn cael eu gweld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r cais hwn am dystiolaeth yn ymwneud ag ef, neu er mwyn cynllunio ceisiadau am dystiolaeth at y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth ymhellach, gwneir y gwaith hwn gan gontractwyr trydydd parti (ee corff ymchwil neu gwmni ymgynghori). Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Nid yw'r Comisiwn Gwaith Teg yn bwriadu cyhoeddi ymatebion unigolion i'w gais am dystiolaeth. Fodd bynnag, gall gwybodaeth y byddwch yn ei darparu gael ei defnyddio yn adroddiad terfynol y Comisiwn. Gall hefyd gael ei chysylltu â'r unigolyn

neu'r sefydliad a ddarparodd yr wybodaeth honno. Os dymunwch aros yn ddienw, nodwch hynny wrth anfon eich ymateb a byddwn yn dileu eich manylion cyn cyhoeddi'r dogfennau.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r cais am dystiolaeth, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na 3 blynedd.

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am hysbysiad preifatrwydd corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau Cais am Dystiolaeth

Gofynnir ichi ateb y cwestiynau isod

Dangosyddion, Ffyrdd o Fesur a Ffynonellau Data

1. Yn eich barn chi, beth yw dangosyddion allweddol gwaith teg a nodweddion cyflogwr gwaith teg?
2. Pa arferion gwaith annheg sydd i'w gweld yng Nghymru ar hyn o bryd? Ym mha ffyrdd y mae gwaith yn annheg?
3. Beth mae gwaith teg yn ei olygu yng nghyd-destun hunangyflogaeth go iawn a sut y gellid ei gefnogi a'i annog?
4. Yn eich barn chi, pa ddata sydd eu hangen neu a fyddai'n ddymunol er mwyn mynd i'r afael â gwaith teg ar lefel mentrau, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol?
5. Pa ddata a ffynonellau data sydd ar gael eisoes ac a ydynt yn ddigonol?

Hyrwyddo Gwaith Teg

6. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio hyrwyddo gwaith deg ar hyn o bryd drwy arferion caffael yn y sector cyhoeddus a'r contract economaidd rhyngddi a'r rheini sy'n cael cyllid gan y llywodraeth; sut y gellid cryfhau'r ysgogiadau hyn a sicrhau eu bod yn cael effaith ehangach?
7. A ddylid gwneud y dulliau gwirfoddol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd (megis llofnodi'r Cod Ymarfer ar Gadwyni Cyflenwi Moesegol) yn rhai gorfodol?
8. Beth yw'r manteision a'r problemau sy'n gysylltiedig â dulliau (a) gwirfoddol a (b) gorfodol o ysgogi gwaith teg? (Byddai'r cyntaf yn cynnwys llofnodi codau ymarfer gwirfoddol, siarteri neu gynlluniau achredu gwirfoddol. Byddai dulliau gorfodol yn cynnwys rheidrwydd i gyflogwyr gael eu hardystio'n Gyflogwr Gwaith Teg er mwyn cael cymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth neu gontractau yn y sector cyhoeddus).
9. Beth mwy y gellid ei wneud i hyrwyddo gwaith teg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?
10. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi trefniadau partneriaeth gymdeithasol a threfniadau tairochrog (dod â chynrychiolwyr y llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur at ei gilydd).

Sut y gallai partneriaeth gymdeithasol chwarae fwy o rôl o ran sicrhau gwaith teg yng Nghymru a pha strwythurau (os oes rhai) y gallai fod eu hangen er mwyn helpu yn hyn o beth?

11. Sut y gallai deddfwriaeth gefnogi undebau llafur a phartneriaeth gymdeithasol fel ffordd o ysgogi gwaith teg?
12. Mae cydfargeinio yn ffordd brofedig o roi llais i weithwyr, o sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ac o gynnal amodau cyflogaeth teg. Sut y gellid cefnogi/ehangu cydfargeinio?
13. A oes gennych dystiolaeth neu enghreifftiau o ffyrdd effeithiol o roi llais i'r gweithwyr ac o sicrhau cynrychiolaeth mewn gweithleoedd lle nad oes undebau?
14. Pa fath o ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn ysgogi gwaith teg yng Nghymru?
(Mae yna faterion yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig o dan Ddeddf Cymru 2017 y gallech fod yn dymuno'u hystyried)
15. Beth sydd ei angen er mwyn sicrhau bod safonau gwaith teg yn cael eu monitro a'u gorfodi mewn ffordd effeithiol?
16. Beth arall allai Llywodraeth Cymru ei wneud i annog gwaith teg?

Cyd-destun ac Effaith

17. Dylai'r nod o fod yn gyflogwr gwaith teg fod yn nod ar gyfer Cymru gyfan ond mae angen i'r modd yr eir ati i gyrraedd y nod hwnnw ac i fesur llwyddiant yn hynny o beth fod yn sensitif ac yn briodol i'r cyd-destun (e.e. sector, rhanbarth, maint y cyflogwr a math o gyflogwr). Sut y gellid cyflawni hynny yn ymarferol?
18. A oes angen mesurau penodol mewn rhai sectorau neu ar gyfer galwedigaethau penodol?
19. Pwy ddylai asesu a yw cyflogwr yn gyflogwr gwaith teg a sut y dylid gwneud hynny?
20. Pa effaith y byddai hyrwyddo gwaith teg yn ei chael ar gyflogaeth yng Nghymru?
21. Beth yw'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag cyrraedd sefyllfa lle y bydd Cymru yn Genedl Gwaith Teg, a sut y gellid mynd i'r afael â nhw?

Rydym yn croesawu awgrymiadau am dystiolaeth bellach y gellid ei hystyried, p'un a yw'n dod o ymchwil academiaidd, profiad ymarferol neu ffynonellau eraill yng Nghymru, y DU neu brofiad rhyngwladol ehangach.

Diolch